

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Ward 2 Ysbyty'r Tywysog Siarl
Dyddiad y gweithgarwch: 19 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 16 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wriiad ansawdd o bell o Ward Dau Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae 24 o welyau ar Ward Dau sy'n darparu gofal i gleifion sydd â phroblemau cardiaidd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r uwch-nyrs, rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward ddydd Mercher 19 Mai 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Archwiliadau risg amgylcheddol wythnosol
- Archwiliadau cwmpadau
- Archwiliadau briwiau pwyso

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym mai dim ond newidiadau bach y bu angen eu gwneud i amgylchedd y ward mewn ymateb i COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau ac asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod pedair cilfan ar y ward, a phob un ohonynt yn darparu ar gyfer hyd at bedwar claf. Mae'r gwelyau yn y clifannau wedi'u gosod ddau fetr oddi wrth ei gilydd er mwyn sicrhau bod y ward yn cydymffurfio â'r rheolau cadw pellter cymdeithasol. At hynny, mae wyth ciwbicl unigol y gellir eu defnyddio i ynysu cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu sydd wedi cael diagnosis o glefyd neu haint trosglwyddadwy.

Dywedwyd wrthym fod mesurau ar waith i sicrhau bod anghenion a dymuniadau unigol y cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio eu gofal, gan gydbwysu'r rhagofalon angenrheidiol sydd ar waith yn sgil COVID-19 ar yr un pryd. Dywedwyd wrthym fod hawliau'r cleifion yn cael eu hymgorffori yn y broses cynllunio gofal ac yn arferion y ward, a bod eu hurddas yn cael ei gynnal. Caiff pob claf ei asesu pan gaiff ei dderbyn, a chaiff y lefel briodol o ofal ei nodi a'i dogfennu yn llwybr gofal y claf. Caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn asesu anghenion parhaus y claf, a chydabyddir bod gan bob claf anghenion emosiynol ac anghenion meddygol gwahanol.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg cleifion unigol yn cael eu cynnal wrth dderbyn cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys asesiad risg ar gyfer cwmpadau ac asesiad risg ar gyfer briwiau pwysu. Cawsom gopi o'r archwiliad cwmpadau diweddaraf a oedd yn dangos bod nifer yr achosion yn isel, a chofnodwyd cyfradd gydymffurfio o 100% mewn perthynas â'r asesiadau a gyflawnwyd a'r cynlluniau gofal a roddwyd ar waith i reoli risgiau. Mae hyn yn dangos bod prosesau cynllunio gofal, a systemau llywodraethu ac adrodd da ar waith i reoli'r risg o gwmpo. Hefyd, cawsom ddata yn ymwneud â niwed pwysu a niwed i feinweoedd sy'n dangos bod nifer yr achosion yn isel, ac yn adlewyrchu'r prosesau effeithiol sydd ar waith i leihau'r risg o niwed pwysu a niwed i feinweoedd.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod prosesau llym ar waith i reoli penderfyniadau Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR), a bod y staff meddygol yn sicrhau bod dymuniadau'r claf ac aelodau perthnasol o'r teulu yn cael eu ceisio a'u cofnodi.

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cyfyngu ar nifer yr ymweliadau ar hyn o bryd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19. Fodd bynnag, mae'r staff yn cydnabod effaith hyn ar y cleifion a'u teuluoedd, ac yn gwneud pob ymdrech i gydbwysu'r risgiau ag ystyriaeth o amgylchiadau unigol y cleifion a'u teuluoedd. O ganlyniad, caniateir rhai ymweliadau, o dan rai amgylchiadau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn sicrhau bod dillad y cleifion yn cael eu newid a'u golchi'n rheolaidd, a bod pethau ymolchi ar gael iddynt. Mae'r staff hefyd yn sicrhau eu bod yn gwybod pryd mae penblwyddi'r cleifion ac achlysuron arbennig eraill fel bod y rhain yn cael eu dathlu'n briodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Ffigurau ar gyfraddau heintio presennol ar gyfer unrhyw Heintiau a Ddelir wrth gael Gofal Iechyd
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
- Yr asesiadau risg a'r archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni ac archwiliadau glanhau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith y staff na'r grŵp cleifion ar hyn o bryd.

Cawsom gopïau o'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys canllawiau penodol ar gyfer COVID-19. Gwelsom fod y rhain yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ynghylch COVID-19. Yn ogystal â hyn, mae asesiad risg penodol ar gyfer COVID-19 ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar y ward yn cydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol i ddiogelu'r staff, y cleifion a pherthnasau.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei bod yn ystyried mai ei chyfrifoldeb hi yw goruchwylio'r broses o reoli'r dulliau atal a rheoli heintiau bob dydd, a bod protocolau ar waith i asesu pob claf pan gaiff ei dderbyn, ac i ddiogelu'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn gywir. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'r tîm arbenigol ar atal a rheoli heintiau er mwyn rheoli'r risg o haint. Yn ogystal, mae nyrsys cyswllt ar y ward sy'n gweithredu fel arweinwyr ar atal a rheoli heintiau. Cynhelir archwiliadau Pwynt Gofal Misol, a chaiff canlyniadau'r rhain eu cyflwyno yn ystod cyfarfodydd misol rheolwyr y ward. Eir i'r afael ag unrhyw faterion a chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff. Mae'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau hefyd yn cynnal archwiliadau blynyddol.

O blith y dogfennau a gyflwynwyd, a'n trafodaethau â'r prif nyrs, rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward, cawsom sicrwydd y byddai unrhyw glaf sy'n cael diagnosis o glefyd heintus yn cael ei reoli'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod pob achos o haint a ddelir wrth gael gofal iechyd yn cael ei adolygu drwy broses dadansoddi gwraidd y broblem ar gyfer¹ rheoli heintiau. Yna, caiff unrhyw wersi a chamau gweithredu eu rhannu â phob aelod o staff y ward. Byddai unrhyw risgiau newydd a nodwyd sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeirio at yr uwch-dîm nyrsio, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu, bod camau gweithredu yn cael eu cymryd, a'u bod yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod digon o PPE ar gael i'r staff, y cleifion ac ymwelwyr, ac y cynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod lefelau digonol yn cael eu cynnal.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd polisiâu a phrosesau'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol yn gynhwysfawr ac yn dangos bod gan y bwrdd iechyd fesurau llywodraethu cryf ar waith i reoli ac adolygu'r pwysau amrywiol ar y gwasanaeth.

Ar sail y trafodaethau a gawsom â'r prif nyrs, rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward, daeth yn glir bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau a phrosesau uwchgyfeirio ac adrodd

¹ Techneg sy'n helpu pobl i nodi pam y digwyddodd y broblem yn y lle cyntaf yw Dadansoddi Gwraidd y Broblem. Ei nod yw nodi gwraidd y broblem gan ddefnyddio cyfres arbennig o gamau, ynghyd ag adnoddau cysylltiedig, er mwyn nodi prif achos y broblem, fel y gallwch benderfynu beth ddigwyddodd, pam y digwyddodd, ac ystyried yr hyn y gallwch ei wneud i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto.

y bwrdd iechyd. Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn cael cefnogaeth dda gan yr uwch-nyrsys, a bod cyngor ac arweiniad ar gael yn ôl y gofyn.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod cyfrifoldeb arni i sicrhau bod digon o staff ar bob sifft sy'n meddu ar y profiad a'r cymhwysedd cywir i ofalu am y cleifion. Esboniodd rheolwr y ward fod proses ar waith i ddod â staff ychwanegol i mewn i gyflenwi pe bai unrhyw ddiffygion, gan ddefnyddio staff banc a staff asiantaeth. Cynhelir sgrymiau diogelwch dair gwaith y dydd, pan adolygir lefelau staffio ym mhob rhan o safle'r ysbyty ac eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod systemau wedi cael eu cyflwyno i ddarparu cymorth ychwanegol i'r staff yn ystod pandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau anffurfiol dyddiol â'r staff, mynediad at wasanaeth iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd, cymorth cwnsela a seicoleg a mynediad at wasanaeth cymorth llesiant cyfrinachol dros y ffôn. Hefyd, cawsom wybod y gall y staff ddefnyddio ystafell llesiant dawel os byddai angen amser i ffwrdd o'r ardal glinigol arnynt.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi o ddydd i ddydd gan reolwr y ward a nyrsys mwy profiadol ar y ward. Yn ogystal â'r cymorth mwy anffurfiol o ddydd i ddydd, dywedwyd wrthym fod Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cawsom dystiolaeth ddogfennol o gyfraddau cwblhau PADR, sy'n dangos cydymffurfiaeth dda iawn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod helpu'r staff gyda hyfforddiant, datblygiad parhaus a llesiant yn hanfodol wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae'r staff yn cwblhau cyfuniad o hyfforddiant ar-lein ac ar y ward. Gall y staff hawlio amser yn ôl os byddant yn cwblhau unrhyw hyfforddiant ar-lein gartref pan na fyddant ar ddyletswydd. Fodd bynnag, roedd y cofnodion hyfforddiant gorfodol yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn isel mewn rhai meysydd, h.y. Diogelwch Tân - 64%, Codi a Chario Lefel 1 - 63% a Lefel 1B - 58%, Atal a Rheoli Heintiau - 64%, Techneg Ddi-gyffwrdd Aseptig - 39%, Diogelu- 61.1%, Cynnal Bywyd Canolraddol - 6%, Dementia - 77.5%.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ym mhob maes gorfodol fel blaenoriaeth.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty'r Tywysog Siarl

Ward 2

Dyddiad y gweithgarwch: 19 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ym mhob maes gorfodol.	7.1 Y Gweithlu	<p>1. Ar adeg yr arolygiad ym mis Mai 2021, nid oedd hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi aildechrau yn llawn o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r gwaith yn parhau i ailsefydlu hyfforddiant wyneb yn wyneb.</p> <p>Roedd y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad yn dangos lle roedd y cyfraddau cwblhau yn isel ac mae'r rhain wedi cael eu</p>	Deborah Jones Rheolwr y Ward	Rhagfyr 2021

hymgorffori mewn cynllun gwella sydd wedi'i atodi er gwybodaeth.

Bydd y cynllun yn mesur gwelliannau o fis i fis gyda'r uwch-nyrs a'r brif nyrs yn sicrhau bod y targed ar gyfer cwblhau yn gyflawnadwy o hyd.

Y cynllun wrth symud ymlaen yw cefnogi'r staff gyda'u hyfforddiant gorfodol yn ystod oriau gwaith.



Document1.docx

2. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ym mhob maes gorfodol fel blaenoriaeth. Diweddarwyd y cynllun gwella atodedig i ymgorffori'r holl bynciau hyfforddiant gorfodol ac mae wedi cael ei ddsbarthu i'r prif nyrsys ar gyfer gofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu, er mwyn monitro a gwella lefelau cydymffurfio ym mhob un o'u meysydd cyfrifoldeb ar draws safle Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Rhagfyr
2021



Document2.docx

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Deborah Harris

Dyddiad: 28.6.2021